**LC622**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Diwygio) (Cymru) 2003**

Mae'r rhain yn diwygio'r gofynion o ran y wybodaeth esboniadol i gyd-fynd â'r hysbysiadau galw am dalu.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i wall drafftio sy'n codi mewn perthynas â'r testun a fewnosodwyd yn rheoliad 3(4) a (5). Gan mai ffurflenni Cymraeg sy'n cael eu diwygio, mae testun Saesneg a Chymraeg y rheoliadau yn cynnwys geiriad Cymraeg diwygiedig. Yn yr achosion a nodwyd, fodd bynnag, mae'r geiriad a ddefnyddir yn y ddau destun (er y gallai'r ystyr fod yr un fath) yn wahanol. Gan mai'r un ffurflen sy'n cael ei diwygio, mae'n rhaid i'r geiriad diwygiedig fod yn union yr un fath yn y ddau destun.

Mae'r gwall hwn wedi cael ei gydnabod ar ran y Gweinidog priodol a gellir ei gywiro drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau.

**Sylwadau**

Bydd angen cywiro rhai gwallau teipograffyddol yn y Saesneg -

Rheoliad 2 - Dylid nodi'r term cyfatebol Cymraeg ar ôl "the principal Regulations".

Troednodyn (a) ar dudalen 2 - i gynnwys deunydd ychwanegol fel yn y fersiwn Gymraeg.

Rheoliad 3(3) – “1” i'w roi cyn “April”.

Rheoliad 3(2) – (5) – angen dileu'r dyfynodau dianghenraid o'r penawdau.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

11 Chwefror 2003